

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

Tynnu lluniau unigol a theuluol

Mi fydd cwmni ffotograffiaeth Tempest yn tynnu lluniau unigolion a theuluoedd yn Neuadd yr ysgol ar ddydd Gwener y 10fed o Hydref. Os oes gennych unrhyw drefniadau arbennig e.e. tynnu llun teulu gyda disgyblion uwchradd neu fabis/plant cyn oed ysgol, yna dewch i'r ysgol erbyn 8:15 y bore. Bydd unigolion a theuluoedd sydd yn yr ysgol yn tynnu eu lluniau yn ystod y diwrnod ysgol rhwng 9:00 a 3:30yp.

Blwyddyn 5 i Gastell Henllys

Fel rhan o waith thema'r Celtiaid mi fydd disgyblion Blwyddyn 5 yn ymweld â Chastell Henllys ar ddydd Mawrth, Tachwedd 14eg. Mi fydd y bws yn gadael am 9 o'r gloch ac yn dychwelyd erbyn 3:30yp Mi fydd angen pecyn bwyd, cot law ac esgidiau addas. Gwerthfawrogi cyfraniad o £8.50 y plentyn drwy eich cyfrif Parentpay os gwelwch yn dda.

Castio ar gyfer rhaglen Stwnsh 'Tekkers'

Dymuniadau gorau i blant blwyddyn 6 sydd wrthi yn castio ar gyfer rhaglen bêl-droed newydd ar gyfer rhaglen Stwnsh 'Tekkers' a fydd yn ymddangos ar S4C cyn hir!


Cardiau Nadolig 2023

Mi fydd y broses o brynu cardiau Nadolig eleni ychydig yn wahanol i'r blynyddoedd diwethaf. Byddwn yn defnyddio cwmni IQ eleni sydd yn medru cynnig mwy na chardiau yn unig, mae ganddynt galendrau, cardiau post, magedau ac eitemau eraill ar gael i'w prynu fel anrhegion. Byddwn yn danfon darluniau'r plant adref ddydd Gwener yma (Tachwedd 10^{fed}) er mwyn i chi ddewis pa eitemau hoffech eu prynu, yna bydd angen eu dychwelyd i'r ysgol dim hwyrach na'r dydd Gwener canlynol, sef y 17^{eg} o Dachwedd. Byddwch yn talu trwy ParentPay amdanynt, os ydych yn dymuno prynu.

Y Gymraeg

Llyfrau Cofnod Datblygu Darllen – 'Darllen a Fi'

Ym mag eich plentyn ddydd Gwener mi fydd Cofnod Darllen newydd ynghyd â chyfarwyddiadau. Mae'r llyfrau ar wefan Câr-di-iaith hefyd – cliciwch ar glawr y llyfr i weld copi electronig ohonynt.



Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r [Calendr Hanner Tymor](#) ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf

Cau ar gyfer gwyliau'r Nadolig ar ddydd Iau yr 21^{ain} o Ragfyr am 3:30yp.
Tymor y gwanwyn yn cychwyn ar ddydd Mawrth y 9^{fed} o Ionawr 2024.

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

Yn gywir,

Gareth L James

Pennaeth Dros Dro

07/11/2023

www.ysgolgymraeg.cymru



Croeso
cynnes i bawb
| Everyone
welcome

Ffair Nadolig Ysgol Gymraeg Aberystwyth Christmas Fair

30 Tachwedd | 30 November

6pm - 8pm | Ysgol Gymraeg Aberystwyth

**Stondinau Cynnyrch Amrywiol |
Various Produce Stalls**

Gêmau | Games

Crefftau | Crafts

Bwyd a diodydd | Food and drink

Peintio wyneb | Face painting

A llawer mwy | And much more

Lawnsiad llyfr 'Mari a Mrs Cloch'
gan Caryl Lewis a delweddau gan
Valériane Leblond |

Launch of 'Mari a Mrs Cloch'

by Caryl Lewis and images

by Valériane Leblond



Pris mynediad: Oedolion: £1, Plant: am ddim | Entry fee: Adults: £1, Children: Free

@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

Individual and family photos

Tempest photography will be taking pictures of individuals and families in the school Hall on Friday the 10th of October. If you have any special arrangements e.g. a family photo with secondary school pupils or babies/pre-school children, then come to school by 8:15 in the morning. Individuals and families who are at the school will have their photos taken during the school day between 9:00 and 3:30pm.

Year 5 to Castell Henllys

As part of the term's Celtic theme work, Year 5 pupils will visit Castell Henllys Iron Age Fort on Tuesday, November 14th. The bus will leave at 9 o'clock and return by 3:30pm Pupils will need a packed lunch, a raincoat and suitable footwear. A donation of £8.50 per child through your Parentpay account would be appreciated.

Casting for 'Tekkers' (Stwnsh programme)

Best wishes to the year 6 children who are currently casting for a new football programme for Stwnsh 'Tekkers' which will appear on S4C soon!


Christmas cards 2023

The process of buying Christmas cards this year will be a little different to previous years. We will be using a company named IQ this year who can offer more than just cards, they have calendars, postcards, magnets and other items available to buy as gifts. We will send the children's designs home this Friday (November 10th) so that you can choose which items you would like to buy, then the designs will need to be returned to school no later than the following Friday, which is the 17th of November. You will pay through ParentPay for them if you wish to purchase.

The Welsh language

Reading Record Books – 'Darllen a Fi'

In your child's bag on Friday there will be a new Reading Record along with instructions.

The books are also on the Câr-di-iaith website - click on the book cover to see an electronic copy of them. 



Half Term Calendar

Here is the link to the [Half Term Calendar](#) for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.

Important dates for next half term

We will be closing for the Christmas holidays on Thursday 21st December at 3:30pm.

Spring term will begin on Tuesday 9th January 2024.

If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.

Yours sincerely,

Gareth L James

Acting Headteacher

07/11/2023

 www.ysgolgymraeg.cymru



Croeso
cynnes i bawb
| Everyone
welcome

Ffair Nadolig

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Christmas Fair

30 Tachwedd | 30 November

6pm - 8pm | Ysgol Gymraeg Aberystwyth

**Stondinau Cynnyrch Amrywiol |
Various Produce Stalls**

Gêmau | Games

Crefftau | Crafts

Bwyd a diodydd | Food and drink

Peintio wynebau | Face painting

A llawer mwy | And much more

Lawnsiad llyfr 'Mari a Mrs Cloch'

gan Caryl Lewis a delweddau gan
Valérieane Leblond |

Launch of 'Mari a Mrs Cloch'

by Caryl Lewis and images

by Valérieane Leblond



Pris mynediad: Oedolion: £1, Plant: am ddim | Entry fee: Adults: £1, Children: Free